CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG

Adroddiad o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd **Nos Lun, 9fed Medi,** 2019, yn Festri Capel Hebron, Llangwnnadl o 7.30 p.m. hyd 8.25 p.m.

Presennol: Y Cynghorydd Glyn Roberts (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Elin Hughes (Is-Gadeiryddes)
Y Cynghorwyr David Brunelli, Carys H. Evans, Dylan Parry Jones, Carys E. Williams
Ymddiheuriad: Y Cynghorwyr Ifor Owen, Siôn Williams
Y Cynghorydd Gareth Williams, Y Cynghorydd Sir

35. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod.

36. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Nid oedd gan unrhyw aelod ddiddordeb yn yr eitemau oedd i'w trafod.

37. CADARNHAU COFNODION

Cyflwynwyd, cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion y Cyngor 8fed Gorffennaf, 2019.
(Cynigiwyd gan Y Cynghorydd Dylan Parry Jones ac eiliwyd gan Y Cynghorydd Glenys Williams).

(a) MATER YN CODI - Eitem 26 Cadarnhau Cofnodion – Mater yn Codi – Eitem 18(a) – O Ddrws i Ddrws

Cyflwynwyd adroddiad i bosteri gael eu rhoddi mewn mannau amlwg yn y Gymdeithas i hysbysu'r trethdalwyr o fwriad 'O Ddrws i Ddrws' ynglyn a chludiant i'r Feddygfa ym Motwnnog gan ofyn iddynt ymateb erbyn 9fed Medi, i ddweud a oedd gofyn i'r math hwn o wasanaeth yn yr ardal. Ni dderbyniwyd unrhyw ymateb.

Penderfynwyd hysbysu Meinir Jones, O Ddrws i Ddrws, ar yr hyn a wnaethpwyd gan y Cyngor ac na dderbyniwyd unrhyw ymateb i'r cyfryw.

(b) Eitem 28 – Materion Ffyrdd a Llwybrau

Cyflwynwyd ymateb Peiriannydd Rhanbarthol Cyngor Gwynedd i'r materion anfonwyd i'w sylw ym mis Gorffennaf fel a ganlyn:

"*Carreg Filltir ger Groeslon Siop Lwyd, Penygroeslon*
Mae'r mater yma wedi ei drosglwyddo i'r swyddog sy'n gyfrifol am y contract torri gwair a bydd yntau'n cysylltu gyda'r contractwyr er mwyn iddynt drefnu i'w hadnewyddu.
Lon Penllech, Bryncroes
Mae'r cloddiau bellach wedi cael eu torri
Manchester House, Sarn
Mae'r twll ger Manchester House, Sarn, wedi cael sylw."

Penderfynwyd nodi'r atebiad ond tynnu sylw fod carreg filltir ger Rhos Madryn, Llangwnnadl, hefyd wedi ei difrodi.

(c) **Eitem 32 – Hawliau mis Awst**

Adroddwyd:

(i)Fod dau gais wedi ei dderbyn yn ystod mis Awst ac fod y Cadeirydd ac aelodau'r Ward berthnasol wedi dod i benderfyniad arnynt ac wedi eu cefnogi. Y ddau gais oedd:

Cais C19/0641/32/LL – cais llawn i godi adeilad ar gyfer defnydd modurdy trwsio a chynnal cerbydau – Saith Bont Garage, Botwnnog.
Cais C19/0094/32/LL – dymchwel ty presennol ac adeiladu ty deulawr yn ei le yn cynnwys modurdy dwbl arwahan – Olgra, Penygroeslon.

(ii) Ni dderbyniwyd unrhyw anfoneb angen ei thalu yn ystod mis Awst.

(ch) **Eitem 33 – Ail Gartrefi**

Adroddwyd er gwybodaeth i ddau ymateb gael ei dderbyn i'r holiadur anfonwyd gan Owain Watkin Hughes ac fod y cyfryw bellach wedi eu hanfon ymlaen iddo.

38. **CEISIADAU CYNLLUNIO**

Cyflwynwyd y cais a ganlyn:

Cais C19/0791/32/LL – adeiladu cytiau adar yn Gremp, Bryncroes.

Penderfynwyd cefnogi'r cais.

39. **MATERION FFYRDD A LLWYBRAU**

Penderfynwyd anfon y materion a ganlyn ymlaen i'r Peiriannydd Rhanbarthol, Cyngor Gwynedd:

(a) Diffyg gwelediad yn Siop y Bont, Llangwnnadl, a Chroesffordd Siop Lwyd, Bryncroes – gofyn a yw'n bosibl torri ychydig ar y coed.
(b) Dyffryn Botwnnog – y coed ('privets') yn disgyn drosodd i'r llwybr ac yn peri'r cerddwyr orfod cerdded ar y ffordd.
(c) Cyffordd Myfyr, Llaniestyn – nifer o ddamweiniau wedi digwydd ar y safle yma ac angen ystyried gwneud gwelliannau i rwystro hynny.

Penderfynwyd ymhellach, er ceisio symud ymlaen gyda'r arwydd 'Eglwys Santes Mair, Bryncroes'. fod hawl i'r Cadeirydd dderbyn pris i fyny i £400 am wneud y gwaith.

40. **MATERION IECHYD**

Adroddwyd fod Noel Jones o Fotwnnog wedi ffonio'r Clarc i'w hysbysu fod Diffibliwr wedi ei osod ar adeilad Cangen Wynnstay ym Mhenygroeslon. Gofynnai tybed a fyddai'r Cyngor yn barod i osod arwydd ar y Gangen i hysbysu'r cyhoedd fod y peiriant yno.

Penderfynwyd gwneud ymholiadau am bris arwydd ac adrodd yn ol.

41. **CYLCHLYTHYR ELUNED MORGAN, AELOD CYNULLIAD DROS GANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU**

Nodwyd fod y cylchlythyr uchod i law.

42. **AWDURDOD I DALU**

Penderfynwyd awdurdodi'r taliadau a ganlyn:

Y Clarc	£372.55
HMRC	£93.20

(Nodwyd fod y Clarc wedi ymadael a'r ystafell yn ystod y penderfyniad uchod).